WESB
Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru
Wales Employment and Skills Board

# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 05-11 (p2) : 10 Mawrth 2011**

**Adolygiad o'r Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru**

**BCSC – Cyflwyniad i'r Pwyllgor Menter a Dysgu**

## CYNGHORAU SGILIAU SECTOR (CSS)

Crëwyd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn 2008 er mwyn cynghori Gweinidogion y Llywodraeth ar bolisïau sgiliau a chyflogaeth, gyda phwyslais arbennig ar fynegi barn cyflogwyr. Fe'i cadeirir gan Syr Adrian Webb, sydd hefyd yn cynrychioli Cymru ar Gomisiwn y DU ar Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES), y corff sy'n gyfrifol am drwyddedu'r Cynghorau Sgiliau Sector. Mynychir cyfarfodydd BCSC yn rheolaidd gan uwch-swyddogion APADGOS, AE&T a UKCES. Mae'r Cadeirydd yn cyflwyno cyngor i weinidogion yn gyson ac mae ef a'r Dirprwy Gadeirydd yn gweithredu fel pwyntiau cyswllt gyda gweinidogion a swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi dau Adroddiad Blynyddol.

Dros gyfnod o ddwy flynedd mae is-grŵp CSS wedi cyfarfod chwe gwaith. Mae aelodau'r grŵp hefyd yn unigol wedi mynychu cynadleddau a seminarau a drefnwyd gan Gynghorau unigol neu gan Gynghrair y CSSau. Mae'r Grŵp yn derbyn mewnbwn a chyngor gan swyddogion APADGOS sy'n goruchwylio gwaith y CSSau yng Nghymru. Nid yw BCSC ei hun mewn sefyllfa i gynnal prosesau rheoli perfformiad ar gyfer Cynghorau Sgiliau Sector unigol. Yn hytrach, mae'n ceisio bodloni ei hun fod prosesau'r UKCES yn rhoi ystyriaeth fyw i safbwyntiau Cymreig. Mae hefyd yn ystyried yn fwy cyffredinol sut orau y gall CSSau gyfrannu at gyflenwi polisïau sgiliau effeithiol ar gyfer Cymru.

Rhoddwyd lle canolog i'r CSSau yn y gwaith o greu, cyflenwi a goruchwylio system ddarparu sgiliau sy'n cyfarfod â gofynion cyflogwyr ac sy'n gwneud y defnydd gorau o'r cyllid cyhoeddus a glustnodwyd ar gyfer datblygu sgiliau. Mae yna gryn wahaniaeth yn ystod gwaith y naill Gyngor a'r llall yng Nghymru, ond yn gyffredinol, ceir darlun o unigolion a thimau ymroddedig sy'n gweithio'n galed gydag adnoddau cyfyngedig.

### Beth a ddisgwylir i'r CSSau ei wneud yng Nghymru?

Nododd Adroddiad Leitch (2006) fod disgwyl i'r CSSau arwain wrth:

- lunio safonau a gwella cymwysterau galwedigaethol

- gasglu a chyfathrebu data’r farchnad lafur yn y sector
- gynyddu’r galw, y buddsoddiad a’r ymwneud gan gyflogwyr
- greu mesurau ar y cyd i ateb gofynion sgiliau penodol eu sector

**Safonau Galwedigaethol a Chynllunio’r Cwricwlwm**

Bu rôl y CSSau wrth lunio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer eu diwydiannau, ac wrth achredu’r cyrsiau a’r cymwysterau hynny sy’n eu cyflenwi’n llwyddiannus, yn werthfawr, er iddo gymryd amser ac adnoddau.

Yn gyffredinol, mae Cymru’n defnyddio’r un cymwysterau â Lloegr – rhai y mae cyflogwyr yn gyfarwydd â nhw. Mae’n dilyn mai’r dull gorau fel arfer o achredu cymwysterau a datblygu safonau galwedigaethol fydd ar lefel y DU. Fodd bynnag, mae yna rai sefyllfaoedd lle mae anghenion Cymru’n wahanol i rai Lloegr, er enghraifft, lle mae polisi LlCC yn wahanol, neu lle mae yna anghenion sgiliau mewn perthynas â’r iaith Gymraeg. Gall y gwahaniaethau yma gynyddu wrth i Gymru ddatblygu ei pholisïau ei hun mewn meysydd eraill. Os felly, bydd angen adnabod safonau a dulliau achredu ychwanegol.

Cefnogodd CSSau golegau addysg uwch a phellach wrth iddynt gynllunio’r genhedlaeth newydd o Raddau Sylfaen. Mae partneriaeth dair-ongl wedi ymddangos rhwng cyflogwyr, CSSau a darparwyr mewn meysydd megis Ynni, Adeiladu Cynaliadwy, TG a’r Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol, gyda phwyslais mawr ar ddysgu rhan-amser ar gyfer gweithluoedd. Mae CSSau hefyd wedi rhoi cymorth cynllunio a chymeradwyo i brifysgolion a cholegau sy’n datblygu prosiectau Cydgyfeiriant Ewropeaidd ar gyfer dysgu yn y gweithle.

**Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (GFL)**

Mae BCSC yn cydnabod gwerth y gwaith GFL a wneir gan y CSSau ar lefel y DU a’r gwaith a wneir ganddynt o ddatblygu gorolwg strategol o anghenion sgiliau eu sector. Ar lefel y DU mae hyn yn cynnwys ymwneud ag arweinwyr busnes sydd, drwy’i gilydd, â dealltwriaeth gref o’r angen.

Gall GFL lleol a rhanbarthol fod yr un mor bwysig o ran dylanwadu ar flaenoriaethau buddsoddi yn y maes sgiliau, ac rydym yn cwestiynu i ba raddau y mae’n ymarferol i GSSau, ar eu pen eu hunain, gydag adnoddau cyfyngedig, ddarparu GFL ranbarthol gynhwysfawr. Mae’n ymddangos mai’r ateb mwyaf ymarferol yw cydweithio agos ar y lefel rhanbarthol gyda chyrff eraill, megis y Partneriaethau Addysg a Busnes, neu fel a ragwelir mewn modelau megis Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De Orllewin Cymru.

Mae'r Rhaglen Adnewyddu Economaidd yn rhagweld datblygiad sylweddol mewn meysydd sgiliau uchel yn economi Cymru. Tra nad oes tystiolaeth o ddiffygion sgiliau sylweddol ar hyn o bryd, byddai economi mwy deinamig yn sicr o arwain at brinderau, rhai ohonynt ym meysydd pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, ond byddent yn debyg o fod yn eithaf penodol. Mae hyn yn awgrymu'r angen am GFL fanwl a chyfoes.

Gallai fod yna gryn swmp o GFL, gan gynnwys y wybodaeth y gallem fod ei hangen, ar gael i LCC trwy reolwyr perthynas fusnes Adran yr Economi a thrwy gynghorwyr Datblygu'r Gweithle APADGOS, ond ar hyn o bryd nid yw hwn yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi at bwrpas ehangach.

Mae gan Gymru angen Gwybodaeth Farchnad Lafur ar lefel genedlaethol a rhanbarthol ac mae angen iddi fod yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau ei pherthnasedd. Dylid diffinio'n glir swyddogaeth y CSSau mewn perthynas â'u cyfraniad at hyn.

**Cyngor Gyrfa**

Mae gan GSSau swyddogaeth arweiniol bwysig i'w chyflawni wrth weithio gyda Gyrfa Cymru i gryfhau'r Llwybrau Dysgu 14-19 a'r prentisiaethau sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer eu cyflogi yn y dyfodol. Argymhellodd adolygiad diweddar y Gwasanaethau Gyrfaodd yng Nghymru y dylai CSSau ddatblygu modelau o brofiad gwaith sy'n addas ar gyfer cefnogi llwybrau dysgu galwedigaethol penodol o'r ysgol drwodd  i gyflogaeth.

**Ymwneud â Chyflogwyr**

Mae'n rhaid i unrhyw gorff sy'n honni siarad ar ran cyflogwyr ymwneud â sampl digon cynrychioliadol ohonynt i fedru gwneud hynny gydag awdurdod. O bryd i'w gilydd mae'r UKCES yn comisiynu arolygon i sefydlu pa mor ymwybodol yw cyflogwyr o'u CSS. Mae lefelau uchel o ymwybyddiaeth yn debyg o gael eu gweld yn arwydd o effeithlonrwydd. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r DU, mae gan Gymru gyfran uchel o fusnesau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl. Nid yw'n ymarferol i'r adnodd CSS yng Nghymru ymwneud yn ystyrlon, yn unigol, gyda nifer mor fawr o gwmnïau bach a chanolig.

Fodd bynnag, lle ceir byrddau cyflogwyr ymgynghorol Cymreig ar gyfer CSSau, maent yn darparu llwybr gwerthfawr a phwysig i hwyluso ymwneud cyflogwyr â'u Cynghorau a dull tryloyw o asesu a yw'r Cytundebau Sgiliau Sector a lunir gan GSSau, yn cyfateb i anghenion cyflogwyr. Mae aelodau BCSC sydd â phrofiad o'r fath fyrddau yn rhoi geirda i'w heffeithlonrwydd ac i'r cyfeiriad strategol maent yn medru ei gynnig i waith y Cynghorau yng Nghymru. Ond nid oes gan bob CSS fwrdd Cymreig o'r math yma ac mewn

rhai sectorau, mae ffora eraill ar gael i gydlynu barn a gweithgareddau cyflogwyr. Ym mhob achos dylai fod yna swyddogaethau a llinellau cyswllt wedi eu diffinio'n glir i osgoi dyblygu ymdrech a sicrhau cysondeb neges.

**Cynyddu'r Galw gan Gyflogwyr am Sgiliau**

Mae angen codi maint y galw gan gyflogwyr am sgiliau lefel uchel er mwyn gwella perfformiad yr economi drwyddi draw. Gellir sbarduno uchelgais cyflogwyr trwy wella eu dealltwriaeth o arfer gorau, trwy hwyluso rhwydweithio a thrwy ddyfeisio a buddsoddi mewn rhaglenni sy'n gwella sgiliau. Gall CSSau chwarae rhan ym mhob un o'r rhain. Mae rhaglenni ar gyfer adnewyddu trefniadaeth fewnol ac ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau ar eu mwyaf effeithiol pan gânt eu cyplysu ag amcanion busnes y cyflogwr. Gall CSSau sy'n meddwl yn strategol helpu i adeiladu'r pontydd sydd eu hangen rhwng rhaglenni LlCC ar gyfer datblygu economaidd a'i rhaglenni ar gyfer datblygu'r gweithlu, os yw'r cydgyfeirio yma i ddigwydd. Dylent hefyd helpu i adnabod blaenoriaethau Ymchwil a Datblygu a all wella'r gallu i gystadlu.

**Dylanwadu ar Gyllido Darpariaeth Hyfforddiant**

Ydi'r defnydd gorau'n cael ei wneud o gyllid cyhoeddus wrth ddarparu'r gweithlu sydd â'r sgiliau y mae gan gyflogwyr eu hangen? Dywed Adroddiad Webb (2008): "Bydd system ddysgu sy'n cael ei gyrru gan anghenion sgiliau cyflogwyr ar gyfer y presennol a'r dyfodol yn un lle mae darparwyr yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion sy'n newid".

Mae Rhaglen Beilot Cronfa Blaenoriaethau Sector APADGOS yn ymgais i glustnodi cyfran o'r cyllid i ddarpariaeth hyfforddiant sydd â chyswllt clir â galw gan gyflogwyr. Y CSSau sy'n rhoi mynegiant i anghenion cyflogwyr yn y ceisiadau a wneir am y cyllid hwn. Gall y gwersi a ddysgir o'r cynlluniau peilot hyn fod yn sail i ad-drefnu cyllido Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle yn y dyfodol, ac os felly byddai swyddogaeth y CSSau o roi llais i anghenion y cyflogwyr yn hanfodol.

**Gwahaniaethu a Diwygio**

Ar hyn o bryd, mae pob CSS yn derbyn yr un faint o gyllid craidd gan UKCES a disgwylir iddynt fod ag ôl-troed (y nifer sy'n gweithio yn y sector ar draws y DU) o faint tebyg i'w gilydd. Rhyngddynt disgwylir iddynt gwmpasu'r holl sectorau cyflogaeth, yn breifat a chyhoeddus. Ond mae'n glir fod yna wahaniaethau sylweddol yn natur ac amrediad gweithgareddau CSSau unigol yng Nghymru. Mae gan y rheiny sy'n ymddangos gryfaf ddolenni cyswllt dwfn gyda chyflogwyr sy'n mynd nôl i'r dyddiau cyn y strwythur CSS, megis trwy'r hen Fyrddau Hyfforddi Diwydiannol. Mae gan Sgiliau Adeiladu Cymru,

er enghraifft, 47 o staff yng Nghymru, tra mae rhai Cynghorau wedi methu hyd yn oed â dal gafael ar Gyfarwyddwr wedi ei leoli yng Nghymru. Elfen arall o gryfder craidd yw lle mae yna lefi neu ddull arall o gyfraniad cyflogwr, sy'n rhoi perchnogaeth amlwg i gyflogwyr a symbyliad ar gyfer cydweithio. Mae yna un enghraifft (Cyngor Gofal Cymru), lle gweithredir swyddogaeth y CSS o fewn corff rheoleiddio Cymreig oedd yn bodoli eisoes, ac sydd â swyddogaethau llawer ehangach. Bydd natur y dadansoddiad sgiliau y gellir ei ddisgwyl gan y fath gorff yn amlwg yn wahanol iawn i'r hyn a gynhyrchir gan CSS mewn sector sy'n gymharol wan yng Nghymru.

Fe gaiff adolygiad Llywodraeth y DU o Gyrff Gwasanaeth Cyhoeddus a'u swyddogaethau effaith bendant ar waith y CSSau yng Nghymru. Bydd UKCES yn derbyn toriad o 40% yn ei gyllid o dan yr Adolygiad Gwariant Cyhoeddus. Mae'n debyg y bydd yna ostyngiad yng nghyllid y CSSau, o bosib un sylweddol. Os felly, beth fydd yr effaith ar eu gallu i chwarae rhan lawn wrth gyflawni agenda sgiliau Cymru?

Un dewis y mae'r UKCES yn debyg o'i ystyried yw'r un o leihau nifer y CSSau. Ond mae'n ymddangos mae rhai o'r CSSau mwyaf llwyddiannus yw'r rheiny lle mae eu hôl-troed yn cyfateb agosaf at ganfyddiad cyflogwyr o'r diwydiant y maent yn perthyn iddo. Mae ôl-troed rhy eang yn arwain at golli ffocws, hunaniaeth a pherchnogaeth. Mwya'n y byd yw'r ôl-troed, mwya'n y byd y mae'r CSS yn dechrau ymdebygu i ran o'r gwasanaeth sifil.

Wedi dweud hyn, mae Rhaglen Adfywio Economaidd Cymru yn adnabod chwe sector allweddol ac mae Byrddau Ymgynghorol Sectorol wedi eu creu ar eu cyfer. Bydd angen i'r Byrddau gael perthynas gref gyda'r CSSau perthnasol os am fynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn effeithiol. Fe all fod yn ddymunol yn eu golwg i weld CSSau'n cael eu had-drefnu fel eu bod yn cyfateb yn fwy agos i'w hôl-traed eu hunain, cyn belled ag y gellir cadw ymlyniad ac arweiniad cyflogwyr. Ond, fel mae pethau'n sefyll, ni fyddai'r fath ad-drefnu'n bosibl onibai ei fod yn cychwyn ar lefel Brydeinig.

Mae BCSC hefyd yn awyddus i bwysleisio'r pwysigrwydd ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru o ddatblygu sgiliau mewn sectorau mawr sydd ddim o fewn y chwech yma – e.e twristiaeth a lletygarwch, man-werthu a'r amgylchedd adeiledig, ond hefyd gofal cymdeithasol a llawer o'r sector cyhoeddus.

Mae'n bosib y gosodir her i GSSau ariannu eu hunain i fwy graddau yn y dyfodol. Mae gennym amheuon i ba raddau y bydd cyflogwyr yn barod i gyfrannu at gostau cynnal CSSau. Byddai'r trywydd yma'n arwain at bwyslais ar werthu gwasanaethau i gyflogwyr, mwy o hunan-hyrwyddo, mwy o symud

i mewn i ddarparu hyfforddiant eu hunain – a gwrthdaro buddiannau eraill a all fod yn niweidiol.

Mewn unrhyw ad-drefnu, mae'n holl bwysig fod llywodraeth y DU a'r UKCES yn cydnabod dyletswydd y CSSau i wasanaethu anghenion y cenhedloedd datganoledig a'r angen i swyddogaethau a strwythurau'r CCSSau gyd-gysylltu'n effeithiol gyda rhai LlCC. Mae swyddogion LlC yn gweithio'n galed i adnabod anghenion craidd Cymru ac i sicrhau y darperir rhain  gan unrhyw drefn ddiwygiedig. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bwysig i UKCES wrando arnynt ac i Lywodraeth y DU dalu sylw i faterion y bydd gweinidogion Cymreig yn eu codi gyda nhw. Mae o fudd i Gymru wneud pob ymdrech i wneud i'r system CSS ddiwygiedig weithio ar gyfer Cymru, oherwydd, fel arall, bydd yn rhaid dyfeisio system arall, i'w hariannu'n llwyr gan LCC. Fodd bynnag, os nad yw Gweinidogion LlCC yn cael eu darbwyllo fod y system newydd yn medru cyflenwi eu gofynion, bydd angen iddynt ystyried pa gamau atodol neu amgen sydd angen eu cymryd.